

PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, ddydd Iau, 7 Mehefin 2018 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Martyn Holland, Hugh Irving (Is-Gadeirydd), Huw Jones (Cadeirydd), Geraint Lloyd-Williams ac Arwel Roberts

Roedd y Cynghorwyr Tony Thomas a Richard Mainon yn bresennol ar gais y Pwyllgor.

HEFYD YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Meirick Lloyd Davies, Brian Jones, Melvyn Mile, Huw Hilditch-Roberts, Glenn Swingler, Rhys Thomas, Emrys Wynne a Mark Young.

Prif Weithredwr (JG), Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (EJ), Uwch Swyddog Gwarchod y Cyhoedd (Diogelwch Cymunedol) (TW-E), Prif Reolwr: Gwasanaethau Cynnal (AL); Swyddog Cwynion Statudol a Chorfforaethol (KR), Cydlynnydd Craffu (RhE) a'r Gweinyddwr Pwyllgorau (RhT-J)

1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Ann Davies, Bob Murray, a David Williams.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Cyflwynwyd datganiad o gysylltiad personol gan y Cyngorydd Emrys Wynne, a oedd wedi ymdrin ag achos yn ymwneud â Kingdom Security yn ei swyddogaeth fel ynad.

3 PENODI IS-GADEIRYDD

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor am enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd. Roedd y Cyngorydd Hugh Irving wedi mynegi diddordeb mewn gwasanaethu fel Is-gadeirydd y Pwyllgor am dymor arall. Cyflwynodd y Cyngorydd Irving CV a ddsbarthwyd i aelodau'r Pwyllgor.

Cynigiodd y Cyngorydd Martyn Holland y dylid penodi'r Cyngorydd Irving fel Is-gadeirydd y Pwyllgor am y flwyddyn sydd i ddod. Eiliodd y Cyngorydd Huw Jones y cynnig. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill ac roedd y Pwyllgor yn unfrydol:

Penderfynwyd: - y dylid penodi'r Cyngorydd Hugh Irving yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2018/19.

4 **MATERION BRYD FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

5 **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2018.

Materion yn Codi:

- Holodd yr Aelodau pryd y byddant yn cael yr adroddiad gwybodaeth mewn perthynas â data gwahardd o'r ysgol, a rhoddwyd gwybod y bydd yr adroddiad gwybodaeth yn cael ei ddsbarthu ym mis Medi.
- Holwyd am yr ymweliad ysgol a godwyd fel sylw yn ystod y drafodaeth ar yr eitem am Reoli Ymddygiad yn Ysgolion Sir Ddinbych, a rhoddodd y cydlynnydd Craffu wybod i'r aelodau bod staff y Gwasanaeth Addysg yn y broses o drefnu ymweliad i'r aelodau i'r Uned Atgyfeirio Disgyblion a phrosiectau cysylltiedig.

PENDERFYNWYD y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2018 fel cofnod cywir.

6 **DEFNYDDIO KINGDOM SECURITY LTD AR GYFER GORFODAETH TROSEDDAU AMGYLCHEDDOL**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio ac Amgylchedd adroddiad y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddsbarthwyd yn flaenorol) i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am weithgareddau gorfodi troseddau a gynhaliwyd gan Kingdom Security Limited ar ran y Cyngor. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor mewn ymateb i gais gan aelodau a oedd eisiau gwybod sut y mae'r contract gyda Kingdom yn cael ei reoli i wireddu gwerth am arian a pha reolaethau sydd wedi'u sefydlu i osgoi niweidio enw da'r Cyngor tra'n gwneud gweithgareddau gorfodi.

Yn ystod ei gyflwyniad, pwysleisiodd yr Aelod Arweiniol bod y contract gyda Kingdom yn Sir Ddinbych yn cael ei reoli yn effeithiol gan Uwch Swyddog Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor (Diogelwch Cymunedol). Roedd cwynion yn ymwneud â throseddau amgylcheddol yn Sir Ddinbych, yn enwedig baw ci, ymysg yr uchaf yng Nghymru cyn i'r Cyngor ymrwymo i gontract gyda Kingdom i ddarparu gwasanaethau gorfodi. Roedd arolygon a gynhaliwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi dangos gwelliant mawr mewn glendid ar y strydoedd, gyda'r nifer o hysbysiadau cosb benodedig (FPN) a roddwyd ar gyfer troseddau baw ci yn Sir Ddinbych yn gyson ymysg yr uchaf yng Nghymru. Cyn i Kingdom ddarparu gwasanaethau gorfodi troseddau amgylcheddol, ychydig iawn o FPN roddodd Sir Ddinbych ar gyfer baw cŵn. Nododd y duedd gyfredol leihad yn y nifer o FPN a roddwyd ar gyfer troseddau baw ci, ac roedd hyn wedi'i briodoli i

effeithiolrwydd perfformiad y gorffennol wrth weithredu i atal ac agwedd addysgol y gwaith a wnaed gan Kingdom h.y. rhoi bagiau baw cŵn i'r cyhoedd a, lle mae'r perchnogion yn caniatáu i'w cŵn redeg yn rhydd, i dynnu eu sylw at yr arwyddion sy'n rhoi gwybod i'r cyhoedd bod yr ardal yn destun Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO) sy'n ei wneud yn ofynnol i gŵn fod ar dennyn bob amser.

Estynnwyd gwahoddiad i gynrychiolwyr o Kingdom Security Limited fynychu'r cyfarfod i drafod gorfodaeth troseddau amgylcheddol gyda'r Pwyllgor. Er eu bod wedi derbyn y gwahoddiad i ddechrau, oherwydd y pryderon am ddiogelwch a lles eu staff, yn ystod y 24 awr ymlaen llaw, gwnaethant y penderfyniad i beidio mynychu. Ond, gwnaethant gyhoeddi datganiad y gwnaeth y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ei ddarllen yn y cyfarfod gan amlinellu'r rhesymau dros eu penderfyniad i beidio mynychu'r cyfarfod. Mynegodd aelodau'r pwyllgor eu siom bod Kingdom wedi tynnu'n ôl o anfon cynrychiolydd i'r cyfarfod mor fyr rybudd. Er eu bod yn deall pryderon y cwmni, gwnaethant bwysleisio na ddylent fod ofn mynychu cyfarfod pwyllgor â chyfansoddiad democrataidd.

Manylodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ar yr adroddiad a chynnwys yr atodiadau cysylltiedig. Rhoddodd wybod i'r Pwyllgor, er bod Kingdom yn gweithio o swyddfeydd y Cyngor yn Ninbych, eu bod yn gweithredu ar draws y sir ac yn cael eu lleoli ar sail gwybodaeth a chwynion a gafwyd gan swyddogion y Cyngor a'r cyhoedd. Adolygwyd a diwygiwyd contract y Cyngor gyda Kingdom yn flynyddol, yn seiliedig ar y mathau o ymholiadau a chwynion a gafwyd gan breswylwyr.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod y Cyngor wedi ymrwymo i gontract gyda Kingdom yn dilyn etholiadau awdurdod lleol 2012 pan dynnodd preswylwyr sylw at faw ci fel problem fawr ar draws y sir, a arweiniodd o ganlyniad at fabwysiadu'r Strategaeth Baw Ci yn y Cyngor. Roedd y contract gyda'r cwmni ar gyfer gorfodaeth yn erbyn nifer o wahanol fathau o droseddau amgylcheddol h.y. baw cŵn, taflu sbwriel, post sothach, ysmegu mewn ardaloedd amgaeedig, graffiti, torri PSPO ayyb. Mae enghreifftiau o'r gwahanol fathau o droseddau y rhoddwyd FPN ar eu cyfer, yn ogystal â'r nifer o droseddau o'r fath a'u lleoliadau, wedi'u rhestru yn Atodiad A i'r adroddiad. Fel rhan o'r contract, roedd disgwyl i Kingdom, yn ogystal â chymryd camau gorfodi, addysgu'r cyhoedd am y peryglon a achoswyd gan droseddau amgylcheddol ac o ganlyniad gwireddu strydoedd glanach, a thaclusach ledled Sir Ddinbych. Mae data ystadegol ar lendid strydoedd a gweithgareddau gorfodi yn nodi bod yr agwedd hon yn talu ar ei ganfed. Roedd yn amlwg bod y cyhoedd rŵan yn fwy cyfrifol yn amgylcheddol, gyda Kingdom yn cyflwyno 2,000 yn llai o rybuddion cosb benodedig yn y sir y llynedd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd hefyd tuedd at i lawr yn y nifer o achosion o faw ci y rhoddwyd gwybod amdanynt a oedd hefyd yn dangos bod y contract gyda Kingdom yn gweithio yn dda, er y cydnabuwyd y byddai bron yn amhosibl i gael gwared â baw cŵn yn gyfan gwbl. Er bod y nifer o FPN a roddwyd wedi lleihau yn ddiweddar, roedd yn dda gweld bod y cyfradd dalu ar FPN a roddwyd cyn gweithredu achosion llys wedi cynyddu i 76%. Gwnaethpwyd pob ymdrech i weithio gydag unigolion nad oeddent mewn sefyllfa i dalu FPN mewn un cyfandaliad i'w galluogi i dalu mewn rhandaliadau fforddiadwy.

Pwysleisiwyd bod y contract gyda Kingdom yn niwtral o ran cost i'r Cyngor. Er bod y Cyngor yn rhoi swyddfa i'r cwmni yn eu swyddfeydd yng Nghaledfryn, nid yw'n 'talu' i'r cwmni am eu gwasanaethau. Telerau'r contract yw bod gan y Cyngor drefniant 'talu wrth fynd' gyda Kingdom, bod y cwmni yn cadw 60% o'r incwm o bob FPN a roddwyd gyda'r 40% sy'n weddill yn cael ei dalu i'r Cyngor i dalu costau rheoli ayyb. I sicrhau nad oedd y cwmni yn mynd yn groes i unrhyw weithdrefnau a phrotocolau wrth wneud gwaith gorfodi ar ran y Cyngor, mae Uwch Swyddog Gwarchod y Cyhoedd y Sir (Diogelwch Cymunedol) yn adolygu lluniau camerâu corff y swyddogion FPN yn rheolaidd. Archwiliwyd i unrhyw gwynion a gafwyd mewn perthynas â gweithgareddau gorfodi'r cwmni yn unol â gweithdrefn gwyno 'Eich Llais' y Cyngor, ac fel rhan o'r archwiliad hwnnw, bydd yr Uwch Swyddog Gwarchod y Cyhoedd (Diogelwch Cymunedol) yn siarad gyda'r swyddog Kingdom dan sylw ac archwilio'r lluniau o'r camera corff. Roedd y nifer o gwynion a gafwyd yn erbyn yr FPN a gyflwynwyd yn llai na 1% o'r nifer a roddwyd. O'r cwynion a gafwyd, ychydig iawn a ategwyd, a lle profwyd bod swyddog Kingdom wedi methu cydymffurfio â gweithdrefnau a phrotocolau gweithredol roedd gan y Cyngor y pŵer i'w symud a gofyn am swyddog gwahanol. Roedd yn braf gallu rhoi gwybod bod y nifer o gwynion yn erbyn ymddygiad swyddogion Kingdom hefyd wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cyn dechrau achosion erlyn, adolygwyd yr holl luniau camerâu corff mewn manylder i sicrhau y byddent yn gwrthsefyll craffu cyfreithiol. Er bod rhai aelodau'r cyhoedd wedi cwyno am ymddygiad swyddogion Kingdom, roedd diffyg cydymffurfio gyda gweithdrefnau, protocolau a pholisïau ymddygiad yn brin. Ond, roedd ymddygiad rhai aelodau'r cyhoedd tuag at swyddogion Kingdom sy'n ceisio gwneud eu gwaith yn annymunol ar adegau.

Gwnaeth Kingdom gydnabod bod Sir Ddinbych yn rheoli ei contract gyda'r cwmni yn gaeth iawn, gan arwain at sicrhau eu bod yn gwybod yn union beth sydd i'w ddisgwyl ohonynt.

Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, bu i'r Aelod Arweiniol, y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a'r Uwch Swyddog Gwarchod y Cyhoedd (Diogelwch y Cyhoedd):

- gadarnhau bod y contract cyfredol gyda Kingdom yn dod i ben ym mis Tachwedd 2018, ac felly y bydd y swyddogion yn dechrau adolygu'r contract yn fuan;
- rhoi gwybod bod Kingdom yn gweithio yn agos ac yn effeithiol gyda swyddogion Gwasanaethau Prifffyrdd ac Amgylcheddol y Cyngor i fynd i'r afael â materion fel digwyddiadau tipio anghyfreithlon mewn 'mannau problemus' ledled y sir. Roeddent hefyd yn gweithio yn agos gyda'i gilydd mewn perthynas ag asesu lle i leoli biniau sbwriel yn y sir, ynghyd â'r nifer sydd eu hangen mewn gwahanol leoliadau. Hefyd, yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd gan y Cyngor a Kingdom mae capasiti biniau gwastraff wedi cynyddu mewn rhai ardaloedd ac mae staff ychwanegol yn cael eu dosbarthu ar adegau prysur h.y. gwyliau banc i sicrhau bod biniau yn cael eu gwagio yn rheolaidd;
- cadarnhau nad oedd gan y Cyngor ddewis arall ar gyfer darparu gwasanaethau gorfodi troseddau amgylcheddol yn effeithiol. Yn sicr, ni allai ddarparu gwasanaeth o'r fath yn fewnol yn yr hinsawdd gwasanaethau cyhoeddus sydd ohoni. I'r Cyngor ddarparu'r gwasanaeth

yn fewnol, byddai angen sefydlu arian sylweddol i ddechrau i brynu peiriannau FPN sy'n costio tua £5 yr un, gwisgoedd, camerâu corff ayyb;

- rhoi gwybod i'r Pwyllgor bod Tîm Cyfathrebu'r Cyngor wrthi'n gweithio ar ymgyrch cyhoeddusrwydd i dynnu sylw at bwysigrwydd cael gwared ar faw cŵn a sbwriel mewn modd cyfrifol a peidio creu perygl i iechyd aelodau eraill y cyhoedd neu droi'r amgylchedd yn rhywle blêr. Byddai'r ymgyrch yn cael ei hyrwyddo mewn sawl man, gan gynnwys ar bosteri, fideos electronig, datganiadau i'r wasg, cyfryngau cymdeithasol ayyb;
- cadarnhau bod nifer yr achosion baw ci fel arfer yn cynyddu yn ystod misoedd y gaeaf, oherwydd nifer yr oriau mewn tywyllwch. I sicrhau erlyniad llwyddiannus am drosedd amgylcheddol, mae'n rhaid i'r lluniau ar y camera corff fod yn glir ac mae'n rhaid cael digon o olau dydd i fedru adnabod y troseddwr yn glir;
- rhoi gwybod pan fydd nifer fawr o gwynion yn cael eu derbyn ynglŷn â baw ci mewn ardal benodol y byddai'n cael ei ddynodi yn ardal broblemus a bydd swyddogion Kingdom yn cael eu hanfon i'r ardal yn syth. Hefyd, bydd y Gwasanaethau Amgylcheddol yn ymweld â'r ardal i glirio unrhyw lanast, a bydd baw ci yn cael ei flaenoriaethu yn rhaglen waith y gwasanaeth;
- cadarnhau bod y Cyngor yn gwybod lle mae swyddogion Kingdom drwy'r dydd gan fod dyfais lwybro ar bob cerbyd. Mae gan Kingdom a'r Cyngor berthynas waith dda ac o ganlyniad mae lefel uchel o ymddiriedaeth dwyffordd yn bodoli rhyngddynt o fewn y contract sy'n arwain at orfodaeth effeithiol a lleihad yn nifer yr achosion o droseddau amgylcheddol;
- rhoi gwybod oherwydd y lleihad yn nifer yr enghreifftiau o droseddau amgylcheddol nad oes sail am achos i gynyddu nifer y swyddogion Kingdom/swyddogion gorfodi troseddau amgylcheddol sy'n patrolio'r sir;
- rhoi gwybod er bod y cyhoedd yn pryderu am faw ci, tipio anghyfreithlon a throseddau amgylcheddol eraill mewn mannau cyhoeddus, fel ardaloedd dan reolaeth y Gwasanaethau Cefn Gwlad, nad oeddent bob amser yn fodlon rhoi datganiadau i gadarnhau'r achosion o droseddau amgylcheddol yr oeddent wedi'u gweld. O ganlyniad, ni allai Kingdom na'r Cyngor erlyn y troseddwr a amheuwyd;
- cadarnhau eu bod, fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer y contract newydd, wedi trafod gyda Gwasanaeth Caffael y Cyngor ynglŷn â hyfywdra ymrwymo i gontract is-ranbarthol ledled Gogledd Ddwyrain Cymru i gaffael gwasanaethau gorfodi troseddau amgylcheddol;
- rhoi gwybod er bod Kingdom yn patrolio ardaloedd mwy trefol y Sir gan mwyaf, eu bod, wrth ymateb i wybodaeth, yn patrolio ardaloedd mwy gwledig y Sir hefyd os oes angen;
- rhoi gwybod os bydd cwynion yn cael eu cefnogi, bod y rhesymau dros eu cefnogi yn amrywio o achos i achos. Nid oeddent bob amser yn cael eu cefnogi oherwydd ymddygiad y swyddog Kingdom, mewn rhai achosion roeddent yn cael eu cefnogi oherwydd diffyg tystiolaeth;
- cadarnhawyd bod FPN am 'droseddau begera' ond wedi'u rhoi mewn un ardal benodol o'r sir.

Roedd y rhain yn cael eu rhoi mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd y troseddwr dan sylw yn droseddwr cyson a gweithiodd Kingdom gyda'r Heddlu i roi'r FPN hyn. Pe bai'n dod i'r

amlyg bod problemau iechyd meddwl wrth wraidd eu hymddygiad, byddai Kingdom a'r Cyngor yn gweithio yn agos gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac asiantaethau eraill gyda'r bwriad o geisio sicrhau cefnogaeth briodol a digonol i'r unigolion dan sylw;

- cadarnhau bod tua 93% o'r FPN a roddwyd yn ystod 2017 wedi'u rhoi ar gyfer troseddau yn ymwneud ag ysmegu, a'r mwyafrif am beidio taflu sigarennau mewn modd cyfrifol. Mewn perthynas â gwastraff a dafluwyd ar ochr y ffordd, gweithiodd y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd a Kingdom yn agos gyda'r Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol. Er y gall Kingdom roi FPN am daflu sbwriel ayyb, nid oedd gan ei swyddogion y pwerau i ddilyn cerbydau ayyb rhag ofn i rywun daflu sbwriel;
- esboniodd bod gwelliant perfformiad y Sir o ran arolygon Cadwch Gymru'n Daclus ddim yn ymwneud yn unig â gwaith gorfodaeth Kingdom, er bod eu gwaith wedi cyfrannu yn sylweddol at strydoedd glanach a thaclusach yn y sir.

Roedd y gwelliant yn ymwneud â gorfodaeth effeithiol sydd wedi'i gefnogi gan wella ymwybyddiaeth, addysgu'r cyhoedd am eu cyfrifoldebau a blaenoriaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol o ran glanhau baw cŵn;

- cadarnhaodd y gallai'r aelodau weld contract y Cyngor gyda Kingdom, ac nad oedd y contract yn cynnwys unrhyw dargedau penodedig;
- rhoddodd wybod, er bod y nifer o FPN ar gyfer baw cŵn yn lleihau, mai'r rheswm dros hyn oedd bod llai o ddigwyddiadau yn cael eu hadrodd. Os oedd aelodau etholedig a'r cyhoedd yn gwybod am ardaloedd lle roedd baw cŵn yn gyson uchel neu yn cynyddu, dylent roi gwybod i Ganolfan Gwasanaethau Cwsmer y Cyngor i alluogi'r Cyngor i ofyn i Kingdom anfon swyddogion i'r ardaloedd hynny;
- cadarnhaodd bod y contract sydd gan y Cyngor gyda Kingdom yn cael ei adolygu yn flynyddol, ac os yw'r aelodau yn teimlo y dylai'r cwmni dreulio mwy o amser mewn ardaloedd mwy gwledig o'r sir, y gellir trafod hyn fel rhan o'r broses adolygu; a
- cadarnhaodd bod Atodiad A yr adroddiad wedi rhestru'r nifer a mathau o droseddau y cyflwynwyd FPN ar eu cyfer, ac nid y nifer ymweliadau ag ardaloedd penodol y sir.

Esboniwyd hefyd bod y ffigur incwm blynyddol o tua £300K a nodwyd ar gyfer Kingdom yn Sir Ddinbych yn incwm ac nid elw. Roedd rhaid ariannu cyflogau a chostau eraill o'r ffigur incwm, ac felly byddai'r ffigur elw yn llawer is.

Rhoddodd rhai aelodau wybod i'r Pwyllgor eu bod wedi bod gyda swyddogion Kingdom wrth iddynt batrolio eu hardaloedd a bod eu gwaith a'u ymddygiad wedi gwneud cryn argraff arnynt. Rhoesant wybod eu bod wedi synnu at ddiffyg parch ac agwedd rhai aelodau o'r cyhoedd tuag at eu cymunedau a'r amgylchedd a pha mor barod oeddent i daflu sbwriel yn anghyfrifol a gadael baw ci mewn mannau cyhoeddus, cyfleusterau cymunedol ac ardaloedd hamdden i'r teulu fel Marine Lake yn y Rhyl. Tanlinellodd yr Aelodau'r risgiau i iechyd y cyhoedd ac i'r diwydiant amaethyddol o ganlyniad i faw cŵn a bod angen i holl breswylwyr ac ymwelwyr y sir fod yn gyfrifol mewn perthynas â'r amgylchedd leol.

Ar ddiwedd y drafodaeth holodd rhai aelodau a allai'r Cyngor, oherwydd arbenigedd Sir Ddinbych mewn rheoli'r contract gofnodi troseddau amgylcheddol gyda

Kingdom, weithredu gwasanaeth rhanbarthol neu is-ranbarthol i ailfuddsoddi mewn gwasanaethau eraill er lles preswylwyr Sir Ddinbych. Roedd nifer o gynghorwyr o'r farn bod strydoedd Sir Ddinbych yn llawer glanach rŵan nag yr oeddent cyn i Kingdom gael eu penodi i ddarparu gwasanaethau gorfodi troseddau amgylcheddol, ond y bydd werth cynnal ymarfer meincnodi i werthuso effeithiolrwydd y gwasanaeth cyfredol yn erbyn y rhai a ddarparwyd gan ddarparwyr posibl eraill cyn rhoi'r contract nesaf. O ganlyniad, gwnaethant ofyn i'r Aelod Arweiniol a'r swyddogion:

- archwilio, trwy'r Gwasanaeth Addysg ac ysgolion ayyb, sut all yr Awdurdod wella a chryfhau ei ddarpariaeth addysg fel y mae'n ymwneud ag ymddygiad a chyfrifoldeb unigolion tuag at yr amgylchedd a throseddau amgylcheddol;
- estyn gwahoddiad i bob cynghorydd sir gysgodi swyddog Kingdom wrth iddynt batrolio eu ward i weld yn union beth y maent yn ei wneud a sut; a
- dylai bod gwasanaeth mewnol Sir Ddinbych ymysg y dewisiadau posibl i'w harchwilio ar gyfer darpariaeth i'r dyfodol; gwasanaeth ar y cyd gyda sir neu siroedd eraill, a gwasanaeth Cyngor Sir Ddinbych a allai ddarparu gwasanaethau gorfodi troseddau amgylcheddol i awdurdodau eraill gan gynhyrchu incwm i Sir Ddinbych.

Pwysleisiodd pob aelod oedd yn bresennol eu bod yn siomedig iawn gyda phenderfyniad Kingdom Security Limited i beidio anfon cynrychiolydd i'r cyfarfod.

Penderfynwyd: - yn amodol ar ddatblygu'r camau gweithredu uchod, bod y Cabinet yn y man yn derbyn gwerthusiad dewisiadau gydag argymhellion ar gyfer darparu gwasanaethau gorfodi ar gyfer troseddau amgylcheddol yn y dyfodol.

7 Cwynion Perfformiad Eich Llais (CH4)

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Datblygu Seilwaith Cymunedol adroddiad y Swyddog Cwynion Statudol a Chorfforaethol (dosbarthwyd yn flaenorol) ar gydymffurfiaeth a pherfformiad y gwasanaethau gyda'r polisi cwynion cwsmeriaid corfforaethol yn ystod chwarter 4 blwyddyn adrodd 2017/18. Yn ystod ei gyflwyniad, rhoddodd wybod i'r aelodau bod y nifer o gwynion a gafwyd, yn ogystal â'r nifer o ganmoliaethau ac awgrymiadau a gafwyd i gyd yn uwch na'r chwarter blaenorol. Ond, dim ond un gwyn oedd heb ei datrys o fewn yr amser a nodwyd, ac roedd y gwyn yn ymwneud â'r Gwasanaeth Addysg. Oherwydd y pwysau arno oherwydd bod gweithwyr ac adnoddau yn cael eu dyrannu tuag at waith arolwg Estyn ar y pryd, nid oedd y Gwasanaeth wedi gallu casglu'r holl safbwyntiau yr oedd eu hangen i ymateb i'r cwyn mewn amser. Ond, roedd y Cyngor wedi cyflawni cyfradd perfformiad o 99% wrth ymdrin â chwynion. Yn ystod chwarter 4, roedd adborth cwsmeriaid wedi arwain at bwynt dysgu ar gyfer y Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad (SpA), a fyddai'n arwain at well gwasanaeth i bawb yn y man. Ar gyfer blwyddyn 2017/18 yn ei chyfanrwydd, roedd perfformiad y Cyngor wrth ymdrin â chwynion o fewn yr amser a nodwyd yn tua 99%.

Mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau, gwnaeth yr Aelod Arweiniol, y Prif Reolwr (Gwasanaethau Cefnogi) - Gwasanaethau Cymorth Cymunedol, a'r Swyddog Cwynion Statudol a Chorfforaethol:

- roi gwybod bod cael swyddog penodedig i ymdrin â chwynion statudol a chorfforaethol wedi bod yn hanfodol i sicrhau gwelliant ym mherfformiad y Cyngor wrth ymdrin â chwynion. Roedd yn gallu canolbwyntio ar ymateb ac ymdrin â'r cwynion a sicrhau eu bod yn cael eu datrys o fewn y dyddiadau targed a nodwyd. Roedd gwell system rŵan i ymdrin a'r cwynion ac roedd prosesau yn ymwneud ag ymdrin â chwynion wedi'u tynhau;
- cadarnhaodd y bu cynnydd mewn ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ystod y misoedd diwethaf.
Ond, gan fod swyddog arall yn ymdrin â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth, ni wnaeth effeithio ar berfformiad yr Awdurdod wrth ymdrin â chwynion;
- rhoddodd wybod bod cwynion mewn perthynas ag ysgolion unigol yn cael eu datrys gan yr ysgolion dan sylw. Roedd cwynion yn ymwneud ag addysg neu bolisiau addysg yn cael eu datrys yn ganolog gan y Cyngor;
- cadarnhaodd bod natur y cwynion a gafwyd yn cael eu dadansoddi gyda'r bwriad o nodi unrhyw dueddiadau a gwelliannau i wasanaethau a ddaw i'r amlwg h.y. byddai tueddiadau a nodwyd fel rhan o'r broses gwynion gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu hadrodd yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghyd â gwelliannau arfaethedig i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion neu fethiannau;
- rhoddodd wybod bod pob cwyn a gafwyd yn cael eu dadansoddi yn feintiol ac yn ansoddol; a
- rhoddodd wybod i'r Pwyllgor ei fod yn dda rhoi gwybod bod y Gwasanaethau Prifffyrdd ac Amgylcheddol wedi cael swm uchel o gwynion yn dilyn eu hymdrechion i glirio eira a chadw ffyrdd ar agor ayyb, yn ystod cyfnodau diweddar o dywydd garw.

Llongyfarchodd aelodau'r Pwyllgor pob gwasanaeth ar eu perfformiad rhagorol wrth ymateb i gwynion ac ymdrin â nhw a -

Phenderfynwyd: - yn amodol ar y sylwadau uchod y dylid argymell, yn y dyfodol:-

- Dylid cyflwyno adroddiadau perfformiad Chwarter 1 a Chwarter 3 'Eich Llais' i'r Pwyllgor fel 'Adroddiadau Gwybodaeth'; a***
- Cyflwyno adroddiadau perfformiad Chwarter 2 a 4 'Eich Llais' yn ffurfiol i'r Pwyllgor yn y cyfarfod, oni bai bod unrhyw bryderon mewn perthynas â pherfformiad wrth gydymffurfio â'r gweithdrefnau cwynion neu'r mathau o gwynion a gafwyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor i dynnu sylw at bryderon.***

8 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu y rhaglen waith i'r Pwyllgor. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod gan y cyfarfod nesaf lwyth gwaith trwm posibl a gofynnwyd a hoffai'r aelodau aildrefnu eitemau penodol.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y bydd swyddog o Lywodraeth Cymru (LIC) yn dod i'r cyfarfod ar 19 Gorffennaf 2018 i drafod Cyllid Cyfalaf ar gyfer Prosiectau Priffyrdd. Ar ôl trafodaeth ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol a'r nifer o eitemau pwysig sydd angen eu trafod, roedd y Pwyllgor o'r farn y dylid ystyried pob eitem ar y rhaglen waith ar gyfer 19 Gorffennaf ac felly na ddylid gohirio unrhyw eitem.

Gan fod y Cynghorydd Peter Scott rŵan yn Gadeirydd y Cyngor Sir nid oedd bellach yn aelod o'r Pwyllgor. Rhoddodd y Cynghorydd Martyn Holland wybod i'r Pwyllgor ei fod yn ceisio enwebiad gan y Grŵp Ceidwadol i wasanaethu ar y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn lle'r Cynghorydd Scott. Roedd y Cynghorydd Scott hefyd wedi bod yn gynrychiolydd y Pwyllgor ar Grŵp Her Gwasanaeth y Gwasanaeth Cyllid, ac felly gofynnwyd i'r Pwyllgor benodi cynrychiolydd yn ei le i wasanaethu'r Grŵp. Yn dilyn trafodaeth gan yr aelodau ynglŷn â pha wasanaethau yr oeddent yn teimlo fyddai'n manteisio o'u harbenigedd:

Penderfynwyd: - yn amodol ar yr arsylwadau uchod -

- (i) cadarnhau'r rhaglen gwaith i'r dyfodol; a**
- (ii) Dylai'r Cynghorydd Ellie Chard wasanaethu fel cynrychiolydd y Pwyllgor ar y Grŵp Her Gwasanaeth Gwasanaethau Addysg a Phlant a dylai'r Cynghorydd Martyn Holland wasanaethu fel cynrychiolydd ar Grŵp Her Gwasanaeth y Gwasanaeth Cyllid**

9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Adroddodd y Cynghorydd Arwel Roberts ar gyfarfod Grŵp Monitro Safonau Ysgolion a oedd wedi'i fynychu'n ddiweddar. Roedd cynrychiolwyr o Ysgol Trefnant ac Ysgol Frongoch wedi mynychu'r cyfarfod a chael eu herio yn gadarn ar nifer o agweddau yn ymwneud â'u darpariaeth a pherfformiad addysg. Roedd y Cynghorydd Roberts o'r farn bod y Grŵp Monitro Safonau Ysgolion yn fforwm effeithiol i godi safonau ysgolion.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.35pm